

Roedd angen math arbennig o unigolyn i reoli planhigfa. P'run ai a oeddent yn Sbaenwyr, Portiwgaliad, Americanwyr, Ffrancwyr, Iseldirwyr neu Brydeinwyr, roedd angen i blanhigfawyr fod yn weithwyr caled, yn wydn ac yn gwbl ddidostur.

Gallai bywyd yn India'r Gorllewin fod yn beryglus ac yn fyr i Affricaniaid ac Ewropeaid. Ond gallai planhigfawyr gwyn uchelgeisiol o gefndiroedd di-nod wneud llawer o arian ac esgyn i fyny'r ysgol gymdeithasol yn gyflym. Erbyn 1820 roedd 5,349 o stadau planhigfeydd yn Jamaica, gyda'r rhan fwyaf ohonynt yn cynhyrchu siwgr a rym.

Un planhigfawr o'r fath oedd Nathaniel Phillips, a brynodd dair planhigfa yn Jamaica. Ym 1789, roedd yn berchen ar dros 700 o gaethweision. Prynodd Stâd Slebech ger Hwlfordd, ym 1793 fel cartref ym Mhrydain.

Teulu arall a ffynnodd yn Jamaica oedd y Pennantiaid. Llwyddasant i wneud digon o arian i brynu stad enfawr y Penrhyn yng Ngwynedd.

Er bod y perchnogion yn ffynnu, ystyrir eu caethweision fel meddiannau. Dengys cofnodion o'r planhigfeydd fod genedigaeth a marwolaethau gweithwyr caeth yn cael eu cofnodi ochr yn ochr â'u da byw.



Angweddfa Cymru - National Museum Wales

▲ Caethweision yn torri câns siwgr ar blanhigfa Henry De La Beche yn Jamaica, 1824.

▲ Slaves cutting sugar cane on Henry De La Beche's Jamaican plantation, 1824.



Archifys a'r Lyfrgell Gymreig, Prifysgol Cymru, Bangor / Archives and Welsh Library, University of Wales, Bangor

◀ Map yn dangos stadau planhigfeydd yn Jamaica. Mae o leiaf bedair o'r stadau yn perthyn i, neu wedi perthyn i, deulu'r Pennantiaid.

◀ A map showing plantation estates in Jamaica. At least four of the estates belong, or had belonged, to the Pennant Family.



Lyfrgell Genedlaethol Cymru/National Library of Wales

◀ Tabl yn dangos genedigaethau ymysg y caethweision ar blanhigfa Nathaniel Philip yn Jamaica ym 1810. Yn yr un tabl cofnodir cynnydd mewn gwartheg hefyd.

◀ A table showing births amongst the slaves on Nathaniel Philip's Jamaican plantation in 1810. In the same table increases in cattle are also recorded.



Archifys a'r Lyfrgell Gymreig, Prifysgol Cymru, Bangor / Archives and Welsh Library, University of Wales, Bangor

◀ Mae'r detholiad hwn o Almanac Jamaica ar gyfer 1822 yn dangos rhai o berchnogion y planhigfeydd ar yr ynys a nifer enfawr y caethweision oedd yn eiddo iddynt, hyd yn oed ar ôl diddymu'r fasnach mewn caethweision.

◀ This extract from the Jamaica Almanac for 1822 shows some of the plantation owners on the island and the huge number of slaves they owned, even after the abolition of the trade in slaves.

It took a particular sort of person to manage a plantation. Whether Spanish, Portuguese, American, French, Dutch or British; Planters needed to be hardworking, resilient and utterly ruthless.

Life in the West Indies could be dangerous and short for both Africans and Europeans. However, ambitious white Planters from modest backgrounds could make lots of money and rise rapidly up the social ladder. By 1820 there were 5,349 plantation estates in Jamaica, mostly producing sugar and rum.

One such Planter was Nathaniel Phillips, who purchased three plantations in Jamaica. In 1789, he owned over 700 slaves. He purchased the Slebech estate, near Haverfordwest, in 1793 as a home in Britain.

Another family who prospered in Jamaica were the Pennants. They made enough money to buy the huge Penrhyn estate in Gwynedd.

Although the owners prospered, their slaves were regarded as mere possessions. Plantation records show the birth and deaths of slave workers recorded alongside that of their livestock.

Munud i feddwl

Gwrandewch ar adroddiadau newyddion am drychinebau dramor. A ydym ni'n dal i feddwl bod bywydau pobl o wledydd eraill yn llai pwysig na'n bywyd ni?

Think about it

Listen to news reports about disasters abroad. Do we still think that the lives of people from other countries are less important than our own?

Geirfa

Da byw – Anifeiliaid a gedwir ar fferm.

Stâd Planhigfa – Fferm fawr yn tyfu cynydu, yn cynhyrchu un math o gnwd fel arfer fel cotwm, siwgr, tybaco neu goffi.

Glossary

Livestock – Animals kept on a farm.

Plantation Estate – A large crop growing farm, usually producing just one type of crop such as sugar, tobacco or coffee.



▲ Torlun pren o long o'r ddeunawfed ganrif ar dderbynneb am lwyth o siwgr o Jamaica.

▲ An eighteenth century woodcut of a ship from a receipt for a shipment of Jamaican sugar.



▲ Roedd y Siarter Logi Llong hon o 1682 yn ddogfen safonol a ddefnyddid gan y Cwmni Affricanaidd Brenhinol i gomisiynu llong i fasnachu caethweision. Amlygir rhai o'r nwyddau i'w masnachu, gan gynnwys manillas a brethyn gwlan a adwaenid fel "Welsh Plains".

▲ This Charter Party of 1682 was a standard document used by the Royal African Company to commission a boat to trade in slaves. Some of the goods to be traded are highlighted, including manillas and woollen cloth known as "Welsh Plains".



▲ Rhoddwyd y cwpan cymun hwn o aur Guinea i Eglwys y Trallwng ym 1662 gan Thomas Davies. Roedd yn berchen ar blanhigfa gaethweision yn Barbados ac ef oedd yr Asiant Cyffredinol i ragredegydd y Cwmni Affricanaidd Brenhinol yng Ngorllewin Affrica.

▲ This communion chalice of Guinea gold was given to Welshpool church in 1662 by Thomas Davies. He owned a slave plantation in Barbados and was the Agent General for the forerunner of the Royal African Company in West Africa.

On loan to On loan to Amgueddfa Cymru - National Museum Wales

Erbyn y ddeunawfed ganrif, Bryste a Lerpwl oedd y prif borthladdoedd ym Mhrydain ar gyfer y fasnach gaethweision. Gyda'r ddwy ddinas mor agos at Gymru, nid yw'n syndod o gwbl fod llawer o Gymry wedi dod yn gysylltiedig â'r fasnach.

Cludodd John Jeffreys (1614-1688) o Lywel, Sir Frycheiniog, longau llawn caethweision i Virginia yn y 1670au a'r 1680au. Daeth â thybaco, siwgr a choed yn ôl i Brydain. Fe'i hetholwyd yn 'Gynorthwydd' (Cyfarwyddwr) y *Royal African Company*, a oedd yn gyfrifol am weithredu'r holl fasnach gaethweision Brydeinig rhwng 1663 a 1698.

Gwasanaethodd llawer o forwyr Cymreig ar longau'r Royal African Company, gan gynnwys Thomas Phillips (a fu farw ym 1703) o Aberhonddu. Roedd ef yn Gomander y llong deithio *Hannibal*.

Gweithiai'r milwyr yn agos gyda 'Marsiandiŵyr' neu ddynion yn y canol a oedd wedi eu lleoli yng nghaerau masnachu'r *Royal African Company* ar arfordir Affrica. Un marsiandiŵr o'r fath oedd Samuel Davies o Landudoch, oedd yn gweithio ym 1736.

Roedd milwyr yn gwarchod y caerau a'r caethion fyddai'n cael eu gwerthu fel caethweision. Yn eu plith roedd Enoch Thomas, o Sir Gaerfyrddin. Gwasanaethodd yn y *Royal African Colonial Corps* yn ystod y 1770au.



Ufrifgell Genedlaethol Cymru/National Library of Wales

◀ Mae'r siarter hon o 1741 yn dangos y prif borthladdoedd masnachu caethweision ar hyd arfordir Gorllewin Affrica. Mae'r Gogledd i'r chwith.

◀ This chart of 1741 shows the main slave trading ports along the West African coast. North is to the left.

By the eighteenth century Bristol and Liverpool were the main British ports for the slave trade. With both cities being so close to Wales it is not surprising that many Welsh people became involved in the trade.

John Jeffreys (1614-1688) of Llywel, Breconshire, transported shiploads of slaves to Virginia in the 1670s and 1680s. He brought tobacco, sugar and wood back to Britain. He was elected 'Assistant' (Director) of the Royal African Company, which ran all of the British slave trade between 1663 and 1698.

Many Welsh mariners served on the ships of the Royal African Company, including Thomas Philips (died 1713) of Brecon. He was commander of the slave ship *Hannibal*.

The sailors worked closely with 'Factors' or middlemen stationed in the Royal African Company's trading forts on the African coast. One such 'Factor' was Samuel Davies of St Dogmaels, working in 1736.

Soldiers guarded the forts and the captives to be sold as slaves. Amongst them was Enoch Thomas from Carmarthenshire. He served in the Royal African Colonial Corps during the 1770s.

Munud i feddwl

Cymerwyd o leiaf 12 miliwn o bobl o Affrica ar draws yr Iwerydd ac i gaethwasiaeth. Mae hyn yn fwy na phedair gwaith nifer y bobl sy'n byw yng Nghymru heddiw.

Think about it

The number of people taken from Africa across the Atlantic Ocean and into slavery was at least 12 million. This is more than four times the number of people living in Wales today.

Geirfa

Caethwasiaeth – Dod o dan reolaeth lwyr unigolyn arall, heb hawliau, rhyddid na dewis.

Cyfalafiaeth – System economaidd lle bo cynhyrchu a dosbarthu yn cael ei wneud gan gwmnïau preifat sy'n buddsoddi rhywfaint neu'r cyfan o'r elw yn y busnes.

Glossary

Slavery – Being under complete control of another person, without rights, freedom or choice.

Capitalism – An economic system where production and distribution is run by privately owned companies who invest some or all of the profits in the business.

Talwyd am dwf cyflym diwydiant yng Nghymru yn ystod y ddeunawfed ganrif, mewn llawer o achosion, gan elw a wnaed o gaethwasiaeth yn India'r Gorllewin a De a Gogledd America.

Yng Ngogledd Cymru, buddsoddodd Richard Pennant (c. 1737-1808) ei elw o'r fasnach siwgr a rŷm i gyllido ac ehangu chwarel lechi'r Penrhyn. Defnyddiodd arian o'i blanhigfeydd hefyd i adeiladu'r harbwr a elwir yn Porth Penrhyn ym Mangor, a'i gartref, Castell Penrhyn.

Roedd Anthony Bacon, marsiandiwr o Lundain, yn ymwneud yn helaeth â'r fasnach gaethweision. Prynodd gaethweision i weithio i'r llywodraeth Brydeinig. Ym 1759, defnyddiodd Bacon ei elw i ddatblygu'r Gweithfeydd Haearn yng Nghyfarthfa, Merthyr Tudful.

Erbyn y bedwaredd ganrif ar bymtheg (ryw 200 o flynyddoedd yn ôl), Cymru oedd prif genedl ddiwydiannol y byd. Enillwyd rhan o'r cyfoeth a'r grym hwn o fuddsoddi elw o lafur caethweision yn nhrefedigaethau Prydain yn y ddeunawfed ganrif.



▲ Mae'r olygfa hon o chwarel lechi'r Penrhyn yn dangos aruthredd y cloddiadau. Fe'u dechreuwyd ym 1785 gan Richard Pennant, AS dros Lerpwl a pherchennog planhigfeydd caethweision mawr yn Jamaica.

▲ This view of Penrhyn slate quarry in shows the vast scale of the excavations. They were begun in 1785 by Richard Pennant, MP for Liverpool and owner of large slave plantations in Jamaica.

The rapid growth of industry in Wales during the eighteenth century was, in many cases, paid for by profits from slavery in the West Indies and the Americas.


In North Wales, Richard Pennant (c.1737-1808) invested his profits from the sugar and rum trade to finance and expand the Penrhyn slate quarry. He also used money from his plantations to build the harbour called Port Penrhyn at Bangor and his home, Penrhyn Castle.

Anthony Bacon, a merchant from London, was heavily involved in the slave trade. He bought slaves to work for the British government. In 1759 Bacon used his profits to develop the Iron Works at Cyfarthfa in Merthyr Tydfil.

By the nineteenth century (around 200 years ago), Wales was the leading industrial nation in the world. Part of this wealth and power was gained from investing profits from Britain's slave-worked colonies of the eighteenth century.

▼ Cafodd y gwaith o adeiladu gweithfeydd haearn Cyfarthfa ei gyllido'n rhannol gan yr elw a wnaeth eu perchennog, Anthony Bacon, o'r fasnach gaethweision. Mae'r olygfa hon yn dangos y gwaith tua 1800.

▼ The building of Cyfarthfa ironworks was partly financed by the profits its owner Anthony Bacon made from the slave trade. This view shows the works in about 1800.



Amgueddfa Castell Cyfarthfa ac Oriel Cefi, Merthyr Tudful, Cyfarthfa Castle Museum & Art Gallery, Merthyr Tydfil



Llyfrgell Genedlaethol Cymru/National Library of Wales

◀ Mae'r olygfa hon sy'n perthyn i tua 1860 yn dangos Castell Penrhyn, cartref mawreddog teulu Pennant, a adeiladwyd ym 1827 gan ddefnyddio elw nhw stadau helaeth yn Jamaica.

◀ This view of about 1860 shows Penrhyn Castle, the impressive Welsh home of the Pennant family, built in 1827 using profits from their extensive Jamaican estates.

Munud i feddwl

Datblygodd cymunedau drwy Ewrop o amgylch diwydiannau a sefydlwyd gan ddefnyddio elw o gaethwasiaeth. Cyllidwyd rhai o'n datblygiadau mwyaf gan y fasnach mewn bywydau dynol.

Think about it

Communities all over Europe developed around industries which were set up using profits from slavery. Some of our greatest developments were financed by the trade in human lives.

Llywodraethwyr Affricanaidd grymus oedd yn rheoli'r fasnach gaethweision ar arfordiroedd Gorllewin Affrica. Roeddent yn hawlio nwyddau Ewropeaidd o ansawdd uchel yn gyfnewid am gaethion. Yn wreiddiol roedd y caethion yn garcharorion rhyfel, ond wrth i'r galw gynyddu, dechreuodd y llywodraethwyr herwgipio pobl yn benodol ar gyfer y fasnach.

Elwodd mwyngloddiau yn Ynys Môn a gweithfeydd copr o amgylch Cymru yn uniongyrchol o'r fasnach gaethweision. Erbyn 1790 cynhyrchai Abertawe'r rhan fwyaf o'r copr a wnaed yn y Deyrnas Unedig. Roedd nwyddau a wnaed o gopr a phres, yn cynnwys breichledau a adwaenid fel 'manilas', yn werthfawr iawn yng ngolwg llywodraethwyr lleol ar arfordir Gorllewin Affrica.

Roedd gefeiliau Cymreig mewn lleoedd fel Basaleg, ger Casnewydd yn cynhyrchu 'haearn mordaith', bariâu bychain o haearn a oedd hefyd yn cael eu masnachu am gaethweision.

Yng Nghanolbarth Cymru, cynhyrchodd y diwydiant gwlan ffyniannus y 'Welsh Plains', brethyn gwlan trwm a garw. Roedd galw mawr am 'Welsh Plains' ar arfordir Gorllewin Affrica. Fe'u defnyddid hefyd i wneud dillad i weithwyr caeth ar y planhigfeydd yng Ngogledd a De America.



Llyfrgell Genedlaethol Cymru / National Library of Wales

◀ Gwaith copr Llangyfelach tua 1745. Agorodd y gwaith ym 1717, a hwn oedd y gwaith smeltio copr cyntaf yng Nghwm Tawe Isaf. Daeth yr ardal yn ganolfan i'r diwydiant copr ar draws y byd.

◀ Llangyfelach copperworks in about 1745. Opened in 1717, this was the first copper smelting works in the Lower Swansea Valley. The area became the world centre of the copper industry.

Munud i feddwl

Gallai unigolyn gael ei werthu i fod yn gaethwas am rhwng 12 a 25 manila. Ar ôl 1750 cododd y pris i oddeutu 50 manila wrth i'r galw am gaethion gynyddu. Gellid hefyd brynu unigolyn am 25 pistol neu 90 kg (200 pwys) o bowdr gwn.

Think about it

A person could be sold into slavery for between 12 and 25 manillas. After 1750 the price rose to around 50 manillas as the demand for slaves grew. A person could also be bought for 25 pistols, or 90 kgs (200 lbs) of gunpowder.

Geirfa


Manilas – Breichledau copr o wahanol faint, a ddefnyddid fel arian mewn rhai gwledydd yng Ngorllewin Affrica o'r ddeunawfed i'r ugeinfed ganrif.
Haearn mordaith – Bariâu bach, tenau o haearn o Brydain a oedd yn cael eu masnachu yng Ngorllewin Affrica.

Glossary

Manillas – Copper bracelets of various sizes, used as money in some West African countries from the eighteenth to twentieth centuries.
Voyage iron – Small, thin bars of iron from Britain which were traded in West Africa.

▶ Gweithwyr yn bwndelu bariâu haearn bwrw ar gyfer ei gludo mewn llongau yn y ddeunawfed ganrif. Roedd ffyrmau haearn yng Nghymru yn gweithgynhyrchu'r haearn bar, y defnyddid rhywfaint ohono yn y fasnach caethweision ac roedd yn cael ei alw yn 'haearn mordaith'.

▶ Workmen banding bundles of wrought iron bars ready for shipping in the eighteenth century. Welsh iron forges manufactured bar iron, some of which was used in the slave trade and was known as 'voyage iron'.




Denis Diderot (1713–1784)



Private collection / Private collection

▶ Byddai copr Cymreig wedi ei ddefnyddio i wneud y pres ar gyfer y manilas hyn yn Birmingham neu Fryste. Y breichladau hyn a seiliwyd ar ddyuniad brodorol o Orllewin Affrica oedd y brif arian cyfred ar gyfer prynu caethweision.

▶ Welsh copper would have been used to make the brass for these manillas at Birmingham or Bristol. Based on an indigenous West African design these 'bracelets' were the main currency for buying slaves.



Parliamentary Archives, House of Lords

◀ Dyma ddeiseb yn erbyn diddymu a gyflwynwyd i'r senedd gan y gweithgynhyrchwr pres a chopr Thomas Williams ym 1788. Mae'n dangos ei fod wedi buddsoddi £70,000 mewn gwneud nwyddau ar gyfer y "fasnach [gaethweision] Affricanaidd" yn ei weithfeydd yn Sir y Fflint, Sir Forgannwg a Swydd Berkshire.

◀ This petition against abolition to parliament is from the brass and copper manufacturer Thomas Williams in 1788. It shows that he had invested £70,000 in making goods for the "African [slave] trade" at his works in Flintshire, Glamorganshire and Berkshire.

Powerful African rulers controlled the slave trade on the coast of West Africa. They demanded quality European goods in exchange for captives. Originally the captives were prisoners of war, but, as demand grew, the rulers began to kidnap people specifically for the trade.

Copper mines in Anglesey and copperworks around Wales benefited directly from the slave trade. By 1790 Swansea produced most of the copper made in the United Kingdom. Goods made from copper and brass included bracelets known as 'manillas', which were highly prized by local rulers on the West African coast.

Welsh forges in places such as Basaleg, near Newport, produced 'Voyage iron', small bars of iron which were also traded for slaves.

In mid Wales, the flourishing woollen industry produced 'Welsh Plains', a heavy, coarse woollen cloth. Welsh Plains were much in demand on the West African coast. They were also used to make clothes for slave workers on the plantations in the Americas.

Mae caethwasiaeth wedi ei gysylltu'n agos â thwff cyfalafiaeth. Roedd pobl oedd yn gweithio mewn diwydiant yn ennill cyflogau uwch a dechreuodd y farchnad am nwyddau moethus gynyddu ym Mhrydain. Y ffordd rataf o gynhyrchu rhai o'r nwyddau hyn oedd drwy ddefnyddio llafur caethweision.

Yn y ddeunawfed ganrif (ryw 300 o flynyddoedd yn ôl) roedd Prydain yn mewnforio te o Asia a choffi o Dde a Gogledd America. Deuai'r rhan fwyaf o'r coffi a oedd yn cael ei yfed ym Mhrydain o blanhigfeydd caethweision mewn trefedigaethau Ffrengig, Sbaenaidd a Phortiwgeaidd.

Cynyddodd y defnydd o siwgr wrth i'r diodydd hyn ddod yn fwy poblogaidd ac wrth i'r genedl fynd yn gyfoethocach. Rhwng 1750 a 1820, mewnforid mwy o siwgr i Brydain nag unrhyw beth arall. Roedd bron y cyfan ohono yn cael ei gynhyrchu yn India'r Gorllewin gan lafur caethion.

Un o isgynhyrchion y planhigfeydd siwgr a wnâi lawer o arian oedd rym. Cynhyrchid pob baril o rym a yfid yn y ddeunawfed ganrif yng Nghymru gan lafur caethweision. Yn y 1790au cymerai India'r Gorllewin 24% o'r copr a allforid o Brydain. Defnyddid y copr i wneud sosbenni a distyll-lestri i gynhyrchu siwgr a rym.

Year	Quantity	Value
1811	1000	1000
1812	1200	1200
1813	1500	1500
1814	1800	1800
1815	2000	2000
1816	2200	2200
1817	2500	2500
1818	2800	2800
1819	3000	3000
1820	3200	3200

◀ Mae'r ddogfen hon yn crynhoi faint o siwgr a rym a gynhyrchwyd ar stadau Nathaniel Phillips yn Jamaica yn ystod 1811.

◀ This document summarises the amount of sugar and rum produced on Nathaniel Phillips' estates in Jamaica during 1811.

▼ Mae'r darlun hwn ar ddalen cân boblogaidd yn dangos caethwas yn trin bareli o siwgr tra bo'r meistr yn goruchwyllo, gan ysmegu tybaco a gynhyrchwyd gan y caethweision.

▼ This illustration to a popular song sheet shows a slave handling barrels of sugar while the master looks on, smoking slave-produced tobacco.



Lyfrgell Genedlaethol Cymru/National Library of Wales

Slavery has been closely linked to the rise of capitalism. People working in industry earned higher wages and the market for luxury goods in Britain began to grow. The cheapest way of producing some of these goods was with the use of slave labour.

In the eighteenth century (around 300 years ago) Britain imported tea from Asia and coffee from the Americas. Most of the coffee consumed in Britain came from slave plantations in French, Spanish and Portuguese colonies.

Sugar consumption grew as these drinks became more popular and the nation became wealthier. Between 1750 and 1820 sugar became Britain's largest single import. Nearly all of it was produced in the West Indies by slave labour.

A money-making sideline of the sugar plantations was rum. Every barrel of rum drunk in eighteenth century Wales was produced by slave labour. In the 1790s the West Indies took 24% of the copper exported from Britain. This copper was used to make pans and stills for sugar and rum production.

Munud i feddwl

Cynhyrchai'r planhigfeydd a weithid gan gaethweision gyfansymiau enfawr o siwgr am bris isel, ac wrth i siwgr ddod yn rhatach i'w brynu, gallai mwy o bobl fforddio ei ddefnyddio. Daeth pydredd dannedd yn llawer mwy cyffredin ym Mhrydain o'r ddeunawfed ganrif ymlaen.

Think about it

Slave-worked plantations produced vast amounts of sugar at low cost and, as sugar became cheaper to buy, more people could afford to use it. Tooth decay became much more common in Britain from the eighteenth century.

Geirfa

Rym – Diod feddwol a wneir drwy eplesu a distyllu triagl, isgynnyrch siwgr.

Distyll-lestr – Offer a ddefnyddir i wresogi hylifau wedi eu heplesu sydd wedyn yn cael eu hoeri i gynyddu eu cynnwys alcohol.

Glossary

Rum – An alcoholic drink made by fermenting and distilling molasses, a by-product of sugar production.

Still – A vessel in which liquids are heated and then cooled to increase their alcohol content.

Roedd nwyddau eraill a fewnforid o Ogledd a De America i Ewrop yn ystod y ddeunawfed a'r bedwaredd ganrif ar bymtheg yn cynnwys tybaco, cotwm, indigo (llifyn tecstil glas), reis a phren caled trofannol fel mahogani. Cynhyrchiid y nwyddau hyn i gyd gan ddefnyddio llafur caethweision.

Byddai cotwm crai yn cael ei gludo mewn llongau i felinau ym Mhrydain a'i wneud yn ddillad, a byddai rhywfaint ohono yn cael ei liwio'n las gydag indigo. Byddai llawer o weithwyr yn y melinau cotwm wedi ysmegu tybaco. Gartref mae'n bosibl y byddent wedi cael diodydd wedi eu melysu gyda siwgr. Yn y dafarn gallent fod wedi pwyso ar far mahogani i brynu gwydraid o rŷm.

Roedd y nwyddau yn darparu gwaith, dillad, nwyddau sylfaenol a nwyddau moethus i bobl gyffredin yn ogystal ag i'r cyfoethog.

Gellir dadlau bod y gymdeithas defnyddwyr yr ydym yn ei hadnabod heddiw yn tarddu o'r ddeunawfed ganrif. Y pryd hwnnw y daeth nwyddau cymharol rad o America ac India'r Gorllewin ar gael yn gyffredin i gartrefi yng Nghymru am y tro cyntaf.



◀ Plât ffasiwn Ffrengig yn dangos merched yn gwisgo ffrogiau bore cotwm, 1807.
◀ A French fashion plate showing women wearing cotton morning dresses, 1807.

Other goods that were imported from the Americas to Europe during the eighteenth and nineteenth centuries included tobacco, cotton, indigo (a blue textile dye), rice and tropical hardwoods such as mahogany. All these goods were produced using slave labour.

Raw cotton was shipped to mills in Britain and made into clothing, some of which was dyed blue with indigo. Many workers in the cotton mills would have smoked tobacco. At home they may have had drinks sweetened with sugar. In the pub they could have lent on a mahogany bar to buy glasses of rum.

The goods provided work, clothing, basics and luxuries for ordinary working people as well as for the rich.

It could be argued that the consumer society that we recognise today has its origins in the eighteenth century. At this time relatively cheap goods from America and the West Indies first became widely available to households in Wales.



▲ Cegin yng Nghastell Newydd Emlyn, 1797. Roedd pibell o dybaco a mwg o rŷm yn bleserau i'r tlawd a'r cyfoethog drwy Gymru.

▲ A kitchen at Newcastle Emlyn, 1797. A pipe of tobacco and a mug of rum were pleasures for rich and poor people throughout Wales.

Munud i feddwl

Mae'n ddiddorol nodi ein bod yn holi heddiw a allai defnyddio llawer o'r nwyddau moethus hyn niweidio eich iechyd neu'r amgylchedd – tybaco, coffi, siwgr, alcohol a phren caled trofannol.

Think about it

Interestingly, today we question whether using many of these luxuries could harm our health or the environment – tobacco, coffee, sugar, alcohol and tropical hardwoods.

Geirfa

Cymdeithas Defnyddwyr – Cymdeithas sy'n prynu'r holl nwyddau y mae'n eu gweithgynhyrchu ac yn mewnforio hyd yn oed mwy oddi wrth gymdeithasau neu wledydd eraill.
Pren caled trofannol – Pren fel mahogani ac eboni, a dorrir o goed sy'n tyfu'n araf a ganfyddir mewn gwledydd cynhesach ac a ddefnyddir yn aml ar gyfer eitemau addurniadol.

Glossary

Consumer society – A community which buys more goods than it makes.
Tropical hardwood – Wood such as mahogany and ebony, cut from trees found in warmer countries and often used for decorative items.